Iechyd y geg ymhlith disgyblion blwyddyn saith (12 oed) yng Nghymru 2023-24

Pwy gafodd ei archwilio?

Archwiliwyd 6,329 o blant o 203 o ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth ledled Cymru (tua 1 o bob 5 plentyn).

Sut wnaethom ni fesur iechyd y geg?

Gwnaethom gyfrif nifer y dannedd a oedd naill ai â phydredd dannedd neu ddannedd a oedd wedi'u llenwi neu eu tynnu oherwydd clefyd. Yna fe wnaethom gyfrifo faint o blant a oedd â dannedd wedi pydru, ar goll neu wedi'u llenwi ledled Cymru (a elwir yn gyffredinrwydd) a chyfrifo nifer cymedrig y dannedd yr effeithiwyd arnynt gan bydredd dannedd fesul plentyn (a elwir yn ddifrifoldeb).

Cyffredinrwydd pydredd dannedd ymhlith plant



Roedd gan tua 1 o bob 4 o blant a archwiliwyd bydredd dannedd.

Er 2008/09, gwelwyd gostyngiad yng nghyffredinrwydd pydredd dannedd ymhlith plant.



Difrifoldeb y pydredd dannedd

Ymhlith yr holl blant a archwiliwyd, roedd tua 0.5 dant yn dangos arwyddion o bydredd dannedd (colofnau glas golau).

Roedd gan y plant â phydredd dannedd tua 2 ddant yn dangos arwyddion o glefyd (colofnau glas tywyll).

Er 2008/09, gwelwyd gostyngiad yn nifrifoldeb y pydredd dannedd.



Anghydraddoldeb iechyd y geg ledled Cymru

Mae plant o gefndiroedd difreintiedig yn profi lefelau uwch o gyffredinrwydd a difrifoldeb pydredd dannedd.
Fodd bynnag, mae'r patrwm hwn wedi gwella rhywfaint er 2008/09.

Cyffredinrwydd



Lleiaf difreintiedig



Mwyaf difreintiedig

Difrifoldeb

Lleiaf difreintiedig

Mwyaf difreintiedig

Dosbarthiad y cyffredinrwydd a'r difrifoldeb ledled Cymru

Roedd cyffredinrwydd a difrifoldeb pydredd dannedd yn amrywio ledled Cymru

Roedd cyffredinrwydd pydredd dannedd ymhlith plant yn amrywio o 16.8% ym Mhen-y-bont ar Ogwr i 36.4% ym Mlaenau Gwent.



Roedd difrifoldeb pydredd dannedd yn amrywio o 0.29 ym Mro Morgannwg i 0.81 ym Mlaenau Gwent.



Effaith pydredd dannedd ledled Cymru



Roedd pydredd dannedd yn cael effaith negyddol ar 28.1% o'r plant a archwiliwyd (yn agos at 1 o bob 3)

Tlechyd Cyhoeddus Cymru, Uned Gwybodaeth Iechyd y Geg Cymru (WOHIU) ym Mhrifysgol Caerdydd a'r Byrddau Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am Raglen Epidemiolegol Ddeintyddol GIG Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru gynnal y rhaglen o dan Gylchlythyr Iechyd Cymru (WHC) (2021) 32: Rôl a darpariaeth iechyd deintyddol y cyhoedd yng Nghymru. Cydlynydd Epidemioleg Deintyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n gyfrifol am gydlynu'r rhaglen drwy Gymru gyfan.
https://phw.nhs.wales/services-and-teams/dental-public-health/oral-health-intelligence/